**COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**

**CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 21 IONAWR 2026 TRWY MS TEAMS (10:00 – 11:30)**

**Aelodau'r PLIA a oedd yn bresennol:** Andrew Blackmore (Cadeirydd Annibynnol), Kalwant Grewal (Aelod Annibynnol), Jassa Scott (Aelod Annibynnol), Dianne Bevan (Aelod), Bethan Price (Aelod)

**Cynrychiolwyr MIAA a oedd yn bresennol:** Gary Baines
David Burrows

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Shereen Williams (Prif Weithredwr), Tom Jenkins (Pennaeth Arolygon), David Burley (Pennaeth Busnes), Mark Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd), David Carr (Rheolwr Cyllid)

Cyhoeddodd y Cadeirydd, yn dilyn y broses benodi briodol, fod Kalwant Grewal wedi cael ei benodi'n Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (PLIA). Nododd y Pwyllgor y penodiad hwn.

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Julie Rees (Archwilio Cymru).

**2. Datganiadau Buddiannau**

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

**3. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2025**

3.1 Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2025 ac fe'u mabwysiadwyd.

**4. Diweddariad gan y Prif Weithredwr**

4.1 Rhoddodd Shereen Williams ddiweddariad llafar ar sefyllfa Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC):

- Roedd Uwch Reolwr Llywodraethu a Chyllid wedi cael ei recriwtio i ddisodli'r Rheolwr Cyllid a oedd yn gadael. Byddai'n dechrau ar 5 Mawrth 2026.
- Roedd rhestr fer o 21 o ymgeiswyr wedi cael ei llunio ar gyfer 3 aelod ychwanegol CDFfC, gan gynnwys Cadeirydd newydd ar gyfer y Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE).
- Roedd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru (LlC) a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) ynglŷn â threfniadau parhaus yr ysgrifenyddiaeth ar y cyd ar gyfer CDFfC a'r Comisiwn Ffiniau i Gymru (CFfG) wrthi'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar hyn o bryd.

- Roedd CDFfC wedi cymeradwyo ei gyflwyniad ar gyfer adnewyddu ei achrediad Seiberddiogelwch IASME Lefel 1 ac roedd ganddo ddarparwr ar gyfer IASME Lefel 2.
- Roedd perygl efallai na fyddai taliadau ymaddasu'r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol yn cael eu darparu gan nad oedd llawer o amser ar ôl i ymgynghori o ganlyniad i oedi gan LIC.
- Byddai'n ofynnol i'r holl staff ac aelodau roi manylion ynglŷn â'u gweithgarwch gwleidyddol cyn etholiadau'r Senedd.

4.2 Holodd y Pwyllgor a fyddai'r recriwtio a gynlluniwyd yn lliniaru'r risg gorfforaethol sy'n gysylltiedig â chynnal personél allweddol. Dywedodd Shereen Williams y byddai hyn bob amser yn risg i sefydliad bach ac efallai y byddai angen rhywfaint o ailstrwythuro staff hefyd yn rhan o'r mesurau lliniaru.

4.3 Holodd y Pwyllgor a oedd LIC wedi derbyn mai nhw sy'n gyfrifol am risg peidio â darparu taliadau ymaddasu, ac nid CDFfC. Cadarnhaodd Shereen Williams eu bod nhw wedi derbyn hynny.

**5. Materion yn Codi o Gyfarfodydd Blaenorol.**

5.1 Nododd y Pwyllgor y materion a gododd o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2025 a oedd wedi derbyn sylw a'r rhai nad oeddent wedi'u cwblhau eto.

5.2 O ran y mater a oedd yn weddill ynglŷn â hyfforddiant Diogelwch TGCh i'r aelodau, adroddwyd bod darparwr hyfforddiant TGCh allanol wedi cael ei nodi ac y byddai trefniadau'n cael eu gwneud i bennu dyddiad addas ar gyfer cyflwyno'r hyfforddiant. Nodwyd nad oedd yr hyfforddiant yn ofynnol i gydymffurfio â Seiberddiogelwch TGCh a'i fod yn cael ei gynnal oherwydd bod cyn-aelodau'r Pwyllgor wedi gofyn amdano. **Cytunwyd** y dylai holl aelodau CDFfC a'r PLIA fynychu'r hyfforddiant, os oedd modd.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31/03/26

5.3 O ran y mater a oedd yn weddill ynglŷn ag Yswiriant Indemniad, adroddwyd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi darparu asesiad risg na dadansoddiad cost a budd yn rhan o'u hymateb i CDFfC. Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai'n ddefnyddiol gwybod a oedd gan gyrff hyd braich eraill LIC yswiriant indemniad. **Cytunwyd** y byddai'r Prif Weithredwr yn codi'r mater yng nghyfarfod nesaf Prif Weithredwyr Cyrff Hyd Braich LIC ac yn holi Prif Weithredwyr Cyrff Hyd Braich eraill LIC ac yn adrodd yn ôl i gyfarfod mis Chwefror neu fis Mawrth.
**Gweithredu:** Prif Weithredwr **Erbyn:** 04/03/26

5.4 O ran y materion a oedd yn weddill ynglŷn â mapio cofrestrau risg CDFfC ac adolygu cwestiynau ymarfer hunanasesu'r PLIA yn erbyn y cwestiynau a awgrymwyd yn y llawlyfr pwyllgorau archwilio a gyhoeddwyd yn ddiweddar, adroddwyd y byddai hyn yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl.

**6. Adolygiad o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.**

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor fersiwn ddiweddaraf y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a ystyriwyd gan CDFfC yn ei gyfarfod ar 10 Rhagfyr 2025. Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, adolygwyd y risgiau ar ôl i newidiadau gael eu gwneud yng nghyfarfod CDFfC ym mis Tachwedd. Y cam nesaf fyddai i aelodau CDFfC gytuno ar y risgiau newydd yn

eu cyfarfod ym mis Ionawr 2026 a chwblhau'r camau gweithredu lliniarol ar gyfer pob risg yn eu cyfarfod ym mis Chwefror 2026.

6.2 Dywedodd Dianne Bevan y dylai Risg 5 ynglŷn â Phobl gynnwys aelodau yn ogystal â staff allweddol. Ystyriwyd hefyd y dylai Risg 1 gynnwys camau lliniarol ar gyfer y risg yn ymwneud â darparu taliadau ymaddasu gan y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol.

6.3 Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai'r risgiau cynyddol sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial gael eu cynnwys yn y risg Seilwaith a Chymorth TG. Dywedodd Shereen Williams y byddai angen i CDFfC gael trefniant ffurfiol ar sut byddai deallusrwydd artiffisial yn cael ei ddefnyddio. Roedd CDFfC yn defnyddio Co-Pilot yn unig ar hyn o bryd, ond byddai angen i aelodau CDFfC benderfynu ar ba gyfyngiadau yr oeddent yn credu y dylid eu gosod ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial fel y gellid ychwanegu'r camau lliniarol priodol at y gofrestr risgiau. Cytunwyd y byddai fersiwn derfynol y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei hatgyfeirio'n ôl i'r PLIA maes o law.

6.4 Cytunwyd y byddai'r gofrestr risgiau ddiwygiedig a fabwysiadwyd gan CDFfC yn cael ei thrafod yng nghyfarfod y PLIA cyn gynted ag y byddai ar gael.

## 7. Archwilio Mewnol: Adroddiadau Archwilio 2025-26

7.1 Cyflwynodd Gary Baines Adroddiad Archwilio Mewnol MIAA ar Reolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol CDFfC ac esboniodd y canfyddiadau allweddol i'r aelodau. Roedd yr adroddiad wedi rhoi sgôr sicrwydd risg Sylweddol i drefniadau prosesu trafodion ariannol CDFfC ac wedi gwneud pedwar argymhelliad archwilio lefel isel/ canolig. Roedd rheolwyr CDFfC wedi derbyn tri o'r argymhellion yn llawn ac un yn rhannol.

7.2 Roedd yr argymhelliad a dderbyniwyd yn rhannol yn ymwneud â CDFfC yn rhoi amcangyfrif o wariant y flwyddyn i ddod i Lywodraeth Cymru. Esboniwyd bod Llywodraeth Cymru wedi gosod cyllideb CDFfC ymlaen llaw yn ystod y blynyddoedd diwethaf, heb fod angen amcangyfrif. Holodd y Pwyllgor a oedd risg na fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu darparu unrhyw gyllid ychwanegol a oedd yn deillio o unrhyw gostau ychwanegol annisgwyl. Dywedodd Shereen Williams fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi ystyriaeth lawn i gyfrifoldebau ychwanegol y Comisiwn wrth osod y gyllideb a bod hyn wedi bod yn fwy na digonol yn y gorffennol.

7.3 Nododd y Pwyllgor Adroddiad Cynnydd MIAA a amlinellodd gynnydd a wnaed hyd yma yn erbyn Cynllun Archwilio Mewnol 2025-26.

7.4 Nododd y Pwyllgor Adroddiad Cynnydd MIAA a amlinellodd gynnydd a wnaed hyd yma yn erbyn Cynllun Archwilio Mewnol 2025-26. Adroddwyd bod yr archwiliad mewnol o Arolwg y Senedd wedi'i gwblhau ac y byddai'r archwiliad mewnol o Reolaethau Llywodraethu Corfforaethol yn dechrau'n fuan.

## 8. Cynnydd Prosiect Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP) y BRhE.

8.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad diweddaru ar Gofrestr Risgiau Strategol y BRhE a statws presennol y prosiect WEIP. Adroddwyd bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth liniaru risgiau 2, 4 a 6 yn ymwneud ag ymgysylltu â rhanddeiliaid, pwerau cyfarwyddyd y BRhE a sicrhau bod y WEIP yn gweithredu yn unol â'r rheoliadau.

8.2 Roedd risg y WEIP wedi lleihau o goch i oren gan fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cyflenwyr a bod contractau newydd wedi'u cadarnhau gyda chyflenwyr newydd. Roedd y canllawiau drafft wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad, gydag adborth cadarnhaol iawn hyd yma. Dywedodd Mark Pascoe, at ei gilydd, fod y BRhE mewn sefyllfa cystal ag y gallai fod, er y byddai dyddiad lansio'r WEIP, sef 2 Mawrth 2026, yn dynn o hyd. Fodd bynnag, nodwyd na fyddai'r BRhE yn ddarostyngedig i'r cyfnod sensitifrwydd uwch cyn yr etholiadau a bod LlC yn ymwybodol y byddai angen i'r BRhE gynnal gweithgarwch gwleidyddol yn ystod y cyfnod hwnnw.

8.3 Holodd y Cadeirydd a fyddai'r BRhE mewn sefyllfa i roi gwybod i'r Pwyllgor a fyddai'r WEIP ar waith fel y cynlluniwyd yn eu cyfarfod ym mis Chwefror a rhoi sicrwydd er mwyn iddynt gymeradwyo prosiect y WEIP. Dywedodd Mark Pascoe y dylai fod yn bosibl cyflwyno papur yng nghyfarfod mis Chwefror.

## 9. Cynllun Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

9.1 Nododd y Pwyllgor Gynllun Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2025-26 a 2026-27 ac fe'u mabwysiadwyd.

## 10. Rhoddion a Lletygarwch.

10.1 Nododd y Pwyllgor y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch gyfredol a'r cofnodion.

## 11. Unrhyw Fater Arall

11.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 18 Chwefror 2026 am 10:00 a.m.